


Martin's Haven tuag at Gateholm

Taith Antur Cadair Olwyn



GRADDFFA: 0 200 400 m

PELLTER: 0.8 milltir (1.3 km)

CLUDIANT CYHOEDDUS: Pâl Gwibio (DIM mynediad hwylus i gadeiriau olwyn)


CYMERIAD: Llwybr wrth ymyl cae; golygfeydd arfordirol

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Teith Antur Cadair Olwyn
- Llwyr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus
- ☎ Ffôn Cyhoeddus
- 🚌 Safle Bws
- G Giât



Martin's Haven tuag at Gateholm

Taith Antur Cadair Olwyn

Martins Haven tuag at Gateholm SM760089

Trowch i'r chwith trwy giât wiced yn ochr orllewinol maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (tâl i barcio yn ystod y tymor). Llwybr wrth ymyl y cae. Graddiannau llai na 1 mewn 20; dim llethr i'r ochr y byddech yn sylwi arno, dim seddau, tair giât gyda chloeon hygyrch. ('Sterling EX3 (Classic)' wedi taclo'r llwybr heb unrhyw broblemau). Golygfeydd hyfryd o Ynysoedd Sgomer a Sgogwm. Toiledau ym Marloes. Llwybr Mynediad Hwylus 1.3 km.

